

Bundle Public Board 26 November 2020

- 7.1 Community Health Council (CHC) Annual Report 2019/20 / Adroddiad Blynyddol Cyngor Iechyd Cymruned (CIC) 2019/20
Cyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda Adroddiad Blynyddol 2019/20
Hywel Dda Community Health Council Annual Report 2019/20

Adroddiad Blynyddol 2019-2020



Cynghorau Iechyd Cymuned (CICau) yw llais annibynnol pobl yng Nghymru sy'n defnyddio gwasanaethau'r GIG. Rydym yn cynnwys gwirfoddolwyr lleol, sy'n ymddwyn fel llygaid a chlustiau'r claf a'r cyhoedd. Ceir 7 CIC sy'n cwmpasu gwahanol ardaloedd o Gymru.

Gellir dod o hyd i gopi electronig o'r ddogfen hon ar ein gwefan:
www.communityhealthcouncils.org.uk/hyweldda

Mae'r adroddiad ar gael yn Saesneg hefyd. Os hoffech y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith arall, cysylltwch â ni, os gwelwch yn dda:

Ystafell 5
Llawr 1af
Tŷ Myrddin
Caerfyrddin
SA31 1BT

Ffôn: 01646 697610

E-bost: hyweldda@waleschc.org.uk

Twitter: @HywelDdaCHC

Facebook: Hywel Dda Community Health Council

Cynnwys

- 4 **Neges gan ein Cadeirydd**
- 6 **Amdanom ni**
- 7 **Ein gweledigaeth**
- 8 **Ein fframwaith strategol**
- 9 **Ein hamcanion cydraddoldeb**
- 10 **Ein swyddogaethau**
- 11 **Cipolwg ar ein blwyddyn**
- 12 **Aelodaeth**
- 13 **Ein ffordd o weithio**
- 13 **Ein safonau cenedlaethol**
- 14 **Sut rydym wedi gwneud gwahaniaeth**
- 18 **Ein cynlluniau ar gyfer y flwyddyn nesaf**
- 19 **Sut allwch chi fynegi barn neu gymryd rhan**
- 20 **Atodiadau**

Neges gan ein Cadeirydd

Ar adeg ysgrifennu ein hadroddiad blynyddol, mae'r byd rydym yn ei adnabod wedi newid yn sylweddol mewn ychydig wythnosau. Yr amser yma y llynedd roedd ein haelodau CIC wrthi'n brysur yn ymweld â meddygfeydd ac eiddo GIG. Roedden nhw'n cynllunio i fynychu digwyddiadau cenedlaethol mawr fel y Sioe Amaethyddol Frenhinol a digwyddiadau ar draws y 3 sir i siarad gyda phobl am eu GIG. Eleni, yn sydyn iawn mae pethau yn wahanol iawn i bob un ohonom.

Er gwaethaf yr ansicrwydd cyfredol yn y byd o'n cwmpas mae'n parhau i fod yn bwysig

i fyfyrion ar yr hyn rydym wedi ei wneud. Dim ond wrth edrych yn ôl y gallwn nodi sut orau i symud ymlaen. Gellir gwneud hyn drwy adeiladu ar y gwaith rydym wedi ei wneud yn y gorffennol, adolygu'r gwahanol sefyllfaoedd rydym wedi delio â nhw, addasu ein dulliau o weithredu ac archwilio dulliau newydd o weithio, hyd yn oed os weithiau maen nhw'n cael eu taflu arnom. Mae ein hadroddiad blynyddol yn rhoi cyfle inni wneud yr holl fyfyrion yma a'i rannu gyda chi.

Rwyf yn hynod o falch o waith CIC Hywel Dda yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae wedi bod yn gyfnod cyffrous ac yn gyfnod o newid sylweddol i'r CIC.



Dyma fy mlwyddyn gyntaf fel Cadeirydd ac er fy mod wedi bod yn ymwneud â'r CIC am sawl blwyddyn, mae arwain ein gwirfoddolwyr anhunanol o fewn amgylchedd iechyd deinamig wedi bod yn gyfle newydd imi.

Daeth Prif Swyddog newydd i'w swydd hefyd, Donna Coleman, sydd yn golygu newidiadau i'r staff yn ein corff, yn gweithio o dan arweinyddiaeth newydd. Y tu hwnt i hynny, mae CICau ar draws Cymru wedi bod yn wynebu newidiadau sylweddol i'r dyfodol yn deillio o'r Mesur Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru). Mae hwn bellach yn Ddeddf ac fe fydd yn golygu dyfodol newydd i bobl Cymru o ran cael llais.

Ymysg y cefndir yma mae Cyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda wedi parhau i ganolbwyntio ar yr hyn sydd yn bwysig i bobl. Ein swyddogaeth ni ydy sicrhau bod y rhai sydd yn cynllunio ac yn trefnu ein gwasanaethau gofal iechyd yn clywed lleisiau

a barn pobl a hefyd yn cymryd sylw o'r hyn sydd yn cael ei ddweud. Dim ond os ydym allan yn weithredol yn ein cymunedau, yn siarad gyda phobl am eu profiadau GIG y gallwn wneud hyn.

O safbwynt y claf, rydym yn parhau i fonitro a chraffu ar waith cyrff GIG yn nhair sir Hywel Dda ac ar draws Cymru. Rydym yn gofyn cwestiynau y mae pobl eisiau ateb iddyn nhw ac yn sicrhau bod y bobl sydd yn gyfrifol am ein gwasanaethau iechyd yn deall beth sydd yn bwysig i'n trigolion.

Mae ardal Hywel Dda yn cynnwys rhan fawr o Gymru. Mae gennym dros 384,000 o bobl i'w cynrychioli mewn cymunedau amrywiol ar draws y tair sir. Mae'r trefi mwyaf poblog yn y dwyrain ac ardaloedd mwy gwledig yn y gogledd a'r gorllewin. Mae gennym 3 prifysgol, rydym yn hafan i dwristiaid, diolch i'n cefn gwlad hardd a'n traethau gwych. Mae ein rhwydwaith ffyrdd yn gyfyngedig, does gennym ni ddim traffyrdd na

rhwydwaith trennau a gall hyn wneud teithio o le i le yn fwy anodd. Mae'n golygu bod gennym bethau i'w trysori am y lle rydym yn byw yn ogystal â heriau i'w wynebu.

Mae ffynonellau eraill o wybodaeth yn dweud ychydig rhagor am y bobl yn ein hardal. Mae'r Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus yn dweud wrthym bob pobl yn hŷn yn ardal Hywel Dda o'i gymharu ag mewn rhannau eraill o Gymru gyda dros 10% o'n poblogaeth yn 75 oed a hŷn. Efallai bod ein dynion a menywod yn byw yn hirach nag mewn sawl rhan o Gymru ond dydy hynny ddim bob amser yn golygu byw mewn iechyd da. Wrth i bobl heneiddio mae eu iechyd yn aml yn mynd yn fwy cymhleth ac yn anodd i'w reoli a gall hyn olygu bod angen rhagor o fewnbwn gofal iechyd.

Mae gennym ragor o bobl ordew yn ein tair sir nag yn y rhan fwyaf o rannau eraill yng Nghymru. Er ein bod yn yfed ac yn ysmegu ychydig yn llai

efallai nag mewn ardaloedd eraill, mae bod dros bwysau hefyd yn creu problemau iechyd sylweddol.

Ar draws Cymru mae tua chwarter y bobl yn ceisio dilyn ffordd o fyw iach drwy ymarfer, peidio ysmegu, bwyta 5 dogn o ffrwythau a llysiau'r dydd. Ond, mae hyn yn golygu nad ydy'r rhan fwyaf ohonom yn dilyn yr argymhellion yma eto. Dyma rywbeth y mae'n rhaid i'n gwasanaethau iechyd ddelio gyda nawr ac yn y dyfodol.

Mae'r holl bethau yma yn golygu bod y gwasanaeth iechyd yn ymlafnio ac mae'n rhaid iddo wneud newidiadau. Mae CIC Hywel Dda eisiau sicrhau bod y newidiadau yma yn cael eu gyrru gan y bobl sydd yn defnyddio'r gwasanaethau.



Mansell Bennett
Cadeirydd

Amdanom ni

Cyngor Iechyd Cymuned (CIC)
Hywel Dda yw corff gwarchod
annibynnol gwasanaethau'r GIG yn
Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro ac yng
Ngheredigion.

**Rydym yn
defnyddio
arolygon,
apiau a'r
cyfryngau
cymdeithasol i
ymgysylltu â'n
cymuned.**

Beth rydyn ni'n ei wneud

Mae CIC Hywel Dda yn ceisio gweithio
gyda'r GIG a'r cyrff arolygu a rheoleiddio.
Rydym yn darparu cyswllt pwysig rhwng y
rheiny sy'n cynllunio a darparu gwasanaethau'r
GIG, y rheiny sy'n eu harolygu a'u rheoleiddio,
a'r rheiny sy'n eu defnyddio


**Mae ein
Gwasanaeth
Eirioli yn helpu
pobl sydd
eisiau codi
pryder am ofal
neu driniaeth y
GIG.**

Mae CIC Hywel Dda yn clywed gan y
cyhoedd mewn sawl gwahanol ffordd.
Rydym yn ymweld â gwasanaethau'r GIG,
er mwyn siarad â chleifion a gofalwyr.
Rydym yn siarad â phobl mewn
digwyddiadau cyhoeddus, a thrwy
grwpiau cymunedol.

Ein gweledigaeth

Mae pobl yn Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a Cheredigion yn gwybod y gallant rannu eu barn am y GIG yn hawdd, ac maen nhw'n cydnabod bod gwneud hynny'n gallu cael dylanwad go iawn ar siap gwasanaethau gofal iechyd.

Mae pobl yn deall ac yn gwerthfawrogi'r rôl mae CICau'n ei chwarae wrth eu cynorthwyo i gael llais ac wrth gynrychioli buddiannau cyfunol y claf a'r cyhoedd.



Ein fframwaith strategol

Er mwyn helpu i wireddu ein gweledigaeth, mae sefydliad CIC yng Nghymru wedi cytuno ar fframwaith strategol, sy'n ymgorffori 5 blaenoriaeth allweddol. Mae'r blaenoriaethau hyn yn sail i'n cynlluniau a'n gweithgareddau.

Gwneud i bob llais gyfrif

Gwella ein dylanwad a'n henw da

Meithrin a datblygu diwylliant dysgu effeithiol, sy'n seiliedig ar werthoedd

Gwerthfawrogi ein haelodau a'n staff

Cryfhau ein llais cenedlaethol

Ein hamcanion cydraddoldeb

Er mwyn ein helpu i gyflawni ein blaenoriaethau allweddol, rydym wedi nodi'r amcanion cydraddoldeb hyn hefyd:

- Byddwn yn gweithio gydag eraill i ddod o hyd i ffyrdd gwell o glywed gan bawb, gan gynnwys y rheiny yn y sefyllfaoedd mwyaf agored i niwed a'r rheiny efallai na fyddai eu lleisiau'n cael eu clywed fel arall.
- Byddwn yn addasu ein dulliau i gyrraedd y rheiny sy'n derbyn gofal y tu allan i'r ysbyty, a byddwn yn datblygu ein hadnoddau a'n gwasanaethau eirioli, i sicrhau eu bod ar gael ac yn hygyrch yn eang, a'u bod yn berthnasol.
- Byddwn yn datblygu ein cynlluniau gyda'r cyhoedd a'n partneriaid, fel eu bod yn canolbwyntio ar y pethau pwysicaf, a bod ganddynt y siawns orau o wneud gwahaniaeth.
- Byddwn yn adeiladu ar ein partneriaethau presennol ac yn ffurfio rhai newydd, lle mae cydweithio'n cynyddu ein siawns o wneud gwahaniaeth.
- Rhaid i'n haelodaeth adlewyrchu amrywiaeth y cymunedau maen nhw'n eu cynrychioli a'u cefnogi. Byddwn yn monitro ein haelodaeth, ac yn datblygu ffyrdd targedig a mwy cynhwysol o recriwtio aelodau newydd, er mwyn bod yn fwy cynrychioliadol.

Ein swyddogaethau

Mae gan CICau bedwar prif swyddogaeth a gellir ei disgrifio fel:

1

Ymweld, a chraffu ar Wasanaethau Iechyd lleol yn systematig

2

Cynrychioli buddiannau'r claf a'r cyhoedd wrth gynllunio a chytuno ar **newidiadau i wasanaethau'r GIG**

3

Galluogi defnyddwyr y GIG i godi pryderon am y gwasanaethau maen nhw'n eu derbyn, trwy **Wasanaeth Eiriolaeth Cwynion Annibynnol**

4

Ymgysylltu'n barhaus â'r cymunedau a gynrychiolwn, a'r darparwyr Gwasanaeth Iechyd sy'n gwasanaethu'r cymunedau hynny

Cipolwg ar ein blwyddyn



Cynhalion ni ein **2^{il}**
adolygiad cymheiriaid,
i fesur ein perfformiad yn
erbyn Safonau Cenedlaethol
CIC


Gwnaed **30** newid i
wasanaethau ledled Sir
Gaerfyrddin, Sir Benfro a
Cheredigion yn ystod 2019-
2020.

Agorodd ein
gwasanaeth eiriolaeth
136 achos newydd,
i helpu pobl godi
pryderon ffurfiol trwy
broses pryderon y
CIC

Rhoddodd ein
gwasanaeth eiriolaeth
gymorth i **100** o
bobl, a gododd eu
pryderon y flwyddyn
flaenorol, trwy broses
pryderon y GIG.

Caewyd **124**
achos ar ôl i'r
pryder gael ei
ddatrys, neu i'r
broses ddod i ben.

Fe wnaeth **36** o aelodau gynorthwyo
CIC Hywel Dda i gyflawni ei
swyddogaethau yn ystod 2019-2020.



Aelodaeth

Ein haelodaeth gwirfoddol

Mae aelodaeth CIC Hywel Dda yn cynnwys **36** o aelodau llawn.

Mae ein haelodau i gyd yn bobl leol, sy'n rhoi o'u hamser am ddim. Mae gennym **6** o aelodau cyfetholedig hefyd, yr ydym yn eu recriwtio'n uniongyrchol o gymunedau lleol.

Os oes gennych ddiddordeb mewn dod yn aelod, cysylltwch â ni trwy ddefnyddio'r manylion yng nghefn ein hadroddiad, os gwelwch yn dda.



Ein ffordd o weithio

Mae'r ffordd yr ydym yn trefnu ein hunain, i gyflawni ein gweithgareddau, wedi'i nodi yn y rheoliadau a basiwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Caiff y gweithgareddau a gyflawnwn eu cydlynu a'u goruchwyllo gan ein tri phwyllgor lleol yn Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a Cheredigion. Y pwyllgorau hyn sy'n creu ein cyngor llawn. Mae gennym bwyllgor gwaith hefyd sy'n gyfrifol, yn y pen draw, am yr hyn yr ydym yn ei wneud a sut yr ydym yn ei wneud.

Ein safonau cenedlaethol

1. Mae'r CICau'n gweithredu er lles y cyhoedd a chleifion yng Nghymru
2. Mae'r CICau'n gweithio'n effeithiol gydag eraill, i ddiogelu a hybu lles pobl sy'n defnyddio gwasanaethau'r GIG
3. Mae gweithgareddau a gwasanaethau'r CIC yn diwallu anghenion, ac yn hygyrch i bawb
4. Mae gweithgareddau'r CIC yn agored, tryloyw a chynhwysol
5. Caiff gweithgareddau'r CIC eu harwain, eu hadnoddu a'u cefnogi'n briodol
6. Mae'r CICau'n cynllunio a chynnal eu gweithgareddau mewn ffordd sy'n cadw eu hannibyniaeth, ac sy'n arddangos eu hatebolrwydd i'r cymunedau maen nhw'n eu gwasanaethu
7. Mae'r CICau'n cryfhau llais y claf a'r cyhoedd, trwy weithio gyda'i gilydd a gydag eraill
8. Mae'r CICau'n adlewyrchu barnau a phrofiadau'r claf a'r cyhoedd am wasanaethau'r GIG
9. Mae'r CICau'n rhannu canlyniadau eu gweithgareddau mewn modd cytbwys ac amserol
10. Mae'r CICau'n gwerthuso effaith eu gweithredoedd, ac yn cymhwyso'r hyn a ddysgwyd at weithgareddau yn y dyfodol.

Sut yr ydym wedi gwneud gwahaniaeth: Gweithio'n lleol

Gosodon ni flaenoriaethau lleol yn ystod 2019-2020. Edrychon ni ar y materion y dywedodd pobl wrthym eu bod bwysicaf iddynt, ac ymatebon ni i'r pryderon a godwyd trwy ein gweithgareddau ni a rhai pobl eraill. Fel sy'n wir bob blwyddyn, ein blaenoriaeth pennaf yw rhoi llais i'r claf a'r cyhoedd.

Rydym wedi cynyddu ein gweithgarwch, i sicrhau bod cleifion yn cael eu cynrychioli mewn gofal sylfaenol a gofal eilaidd. Rydym wedi cynnal amrywiol grwpiau ffocws, ac wedi treulio amser yn dychwelyd i wardiau, i sicrhau bod cynlluniau gweithredu wedi cael eu rhoi ar waith.

Ymgysylltu â phobl yn ein cymunedau lleol

Mae 2019-2020 wedi bod yn flwyddyn weithgar o ran ymgysylltu. Aethom ati i ymgysylltu â'r cyhoedd a'r cleifion yn ystod pob ymweliad a drefnwyd, er mwyn ennyn dealltwriaeth o'r profiad presennol. Cynyddon ni nifer y digwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd hefyd, gan fynd â'n stonin CIC i lawer o ddigwyddiadau yn ystod y flwyddyn. Mae'r digwyddiadau hyn wedi cynnwys:

- Sioe Sir Benfro
- Ffeiriau'r Glas Fyfyrrwyr
- Boreau coffi
- Cyfarfodydd gyda ACau
- Digwyddiadau ymgysylltu Trawma Mawr
- Digwyddiadau gofalwyr

Mae cyfrifoldeb gan y CICau i gynrychioli buddiannau'r claf a'r cyhoedd yn yr ardaloedd daearyddol maen nhw'n eu gwasanaethu.

Yn aml, bydd y blaenoriaethau a nodwyd gan y claf a'r cyhoedd yn lleol i ardal CIC arbennig, neu i

ysbyty neu wasanaeth penodol hyd yn oed. Fodd bynnag, fe fydd themâu a blaenoriaethau bob amser sy'n gyffredin i'r CICau ledled Cymru.

Pan fydd hyn yn digwydd, mae'r CICau'n gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod barn a phrofiadau'r claf a'r cyhoedd yn cael eu hadlewyrchu'n lleol ac yn genedlaethol; gan roi llais cryf i'r claf i ddylanwadu ar ddatblygiad polisïau cenedlaethol a'r hyn a ddarperir yn lleol.

Mae ein hadroddiadau cenedlaethol ar gael ar ein gwefan.

Craffu

Rydym wedi parhau i fonitro a chraffu ar y gwasanaethau iechyd sydd ar gael i gleifion. Lle rydym wedi gweld gostyngiad yn lefel y perfformiad, neu ein bod wedi derbyn cwestiynau am yr effaith ar gleifion, rydym wedi gofyn am esboniad.

Rydym yn cadw golwg ar beth sydd yn digwydd yn y

gwasanaethau iechyd yn ein hardal. Mae aelodau a staff CIC yn mynychu amrediad o bwyllgorau a chyfarfodydd gyda'r Bwrdd Iechyd a chyrff eraill i glywed beth sydd yn digwydd. Mae hyn yn rhoi cyfle inni ofyn cwestiynau, herio a siarad dros bobl Hywel Dda.

Dydy ein haelodau ddim yn arbenigwyr clinigol nac yn arolygwyr. Does dim angen gwybodaeth dechnegol neu glinigol i wneud y gwaith yma Maen nhw'n mynd i gyfarfodydd pwyllgorau, yn holi cwestiynau ac yn gwneud gwahaniaeth. Mae ganddyn nhw ddealltwriaeth gyffredin o'r materion a drafodir. Mae'r ymagwedd yma yn sicrhau bod pryderon pobl gyffredin yn cael eu dwyn i flaen sylw.

Mae aelodau'n mynychu'r cyfarfodydd yma i ddeall sut mae cyrff iechyd yn gweithio, beth maen nhw'n ei wneud a'i gynllunio. Maen nhw'n ceisio sicrhau bod yr effaith ar gleifion yn cael ei ystyried

bob amser. Maen nhw'n gwneud hyn drwy ystyried sut y byddai cynlluniau, penderfyniadau a newidiadau yn effeithio arnyn nhw, aelodau eu teulu neu eu cymdogion.

Rydym yn rheolaidd yn gwahodd rheolwyr bwrdd iechyd allweddol i'n cyfarfodydd pwyllgorau lleol fel bod ein haelodau yn gallu siarad yn uniongyrchol gyda nhw. Mae ein haelodau yn gwrando ar beth sydd ganddyn nhw i'w ddweud ac yn gofyn cwestiynau. Rydym yn dweud wrthyn nhw am yr hyn rydym yn ei glywed gan ein cymunedau lleol. Pan fo cwestiynau na ellir eu hateb ar unwaith, rydym yn gofyn iddyn nhw ddod yn ôl atom gydag atebion clir.

Nod yr aelodau ydy sicrhau bod lleisiau pobl yn ein cymunedau yn cael eu clywed Mae hyn yn anodd weithiau oherwydd dydy cymunedau a phobl ddim bob amser yn cytuno ar yr hyn sydd ei

angen neu yr hyn sydd orau. Mae hyn yn golygu ein bod yn gorfod cynrychioli gwahanol farn ar adegau.

Weithiau mae'r CIC yn gofyn cwestiynau am faterion sydd yn effeithio ar y DU gyfan neu ar Gymru gyfan neu ar ran helaeth o Gymru (fel rhanbarth). Er enghraifft, gwyddom o'r newyddion y gall fod yn anodd recriwtio staff GIG. Mae angen inni ddeall sut mae hyn yn effeithio ar ein gwasanaethau yn Hywel Dda. Weithiau rydym yn clywed am atebion lleol i'r problemau yma. Eleni fe wnaethom glywed bod y Bwrdd Iechyd wedi datblygu cynllun prentisiaeth i recriwtio a datblygu pobl leol oddi mewn i ofal iechyd.

Rydym hefyd yn gofyn yn ffurfiol i'r Bwrdd Iechyd am rai materion drwy ysgrifennu at uwch staff. Er enghraifft, yn 2019 fe wnaethom ofyn i'r Bwrdd Iechyd ddweud wrthym beth oedd wedi newid i gleifion yn ei

gwasanaethau gofal llygaid (Offthalmoleg). Roeddem wedi edrych ar hyn eisoes yn 2016 ac wedi nodi newidiadau angenrheidiol. Fe wnaethom ddilyn hyn i fyny yn 2019 i weld beth oedd y newidiadau hynny wedi ei olygu i gleifion. Fe wnaethom ysgrifennu llythyrau eraill yn ystod y flwyddyn pan roedden ni angen atebion i faterion eraill. Yn ystod eleni, roedd rhai o'r pethau a drafodwyd gyda amrywiol gyrff iechyd yn cynnwys:

- Recriwtio nyrsys cymunedol
- Heriau mewn unedau endoscopi
- Chemotherapi
- Amseroedd amser i orthodonteg
- Amseroedd agor a lle y galli pobl gael profion gwaed
- Canolfannau galw heibio ar gyfer gofal iechyd meddwl
- Newidiadau ffiniau i feddygfeydd
- Darganfod deintydd newydd mewn ardaloedd gwledig
- Rheoli wlserau coes yn y gymuned
- Darparu gofal i oedolion ifanc gydag awtistiaeth a phroblemau iechyd meddwl
- Anawsterau mewn cael apwyntiadau mewn meddygfeydd
- Parcio ceir mewn ysbytai
- Newidiadau gwelyau/wardiau mewn amrywiol ysbytai
- Datblygiadau mewn canolfannau gofal integredig newydd
- Argaeledd cludiant i apwyntiadau cleifion allanol
- Gofal a rheolaeth dementia mewn ysbytai
- Systemau testun i atgoffa cleifion am apwyntiadau
- Gofal cardioleg i gleifion sydd angen cael eu gweld mewn ardaloedd eraill
- Cyflenwi a rheoli cynorthwyon clywed

- Gwasanaeth ffôn 111
- Terfynau amser ar gyfer sgrinio'r coluddyn
- Gwiriadau mamolaeth tu allan i ysbytai
- Mynediad i dimau argyfwng yn y gymuned

Newidiadau i wasanaethau'r GIG yn lleol

Trwy gydol 2019-2020, mae'r Bwrdd Iechyd naill ai wedi gwneud, neu wedi cynllunio i wneud, rhai newidiadau sylweddol i wasanaethau. Cafodd CIC Hywel Dda ei werthuso a'i ymgynghori ar amrywiol newidiadau i wasanaethau'r GIG, o gynigion lleol i rai rhanbarthol. Ein rhan ni yn y cynigion hyn oedd sicrhau bod barn y claf a'r cyhoedd wrth wraidd y newidiadau, a bod yr effaith ar y defnyddiwr gwasanaethau mor gadarnhaol â phosib.

Gwyddom bod rhaid i bethau newid mewn gofal iechyd weithiau er budd pobl drwy ddulliau newydd o weithio neu dechnoleg newydd. Ar

adegau eraill, efallai bod angen i newidiadau ddigwydd yn sydyn oherwydd nad ydy pethau'n gweithio'n dda neu oherwydd sefyllfaoedd annisgwyl. Drwy gydol 2019-20 siaradodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda gyda'r CIC am ei gynlluniau a'i gynigion i newid gwasanaethau.

Roeddem yn rhan o'r trafodaethau yma oherwydd bod barn aelodau'r cyhoedd a chleifion yn cyfrif. I sicrhau bod unrhyw newidiadau yn gweithio'n dda, mae angen cynnwys y bobl sydd yn defnyddio'r gwasanaethau hynny. Dydyn ni ddim eisiau i'r bobl sydd yn cynllunio a darparu gwasanaethau i wneud penderfyniadau dros ein cymunedau lleol. Rydyn ni eisiau iddyn nhw wneud penderfyniadau gyda'n cymunedau.

Mewn un achos roedd dau fwrdd iechyd yn rhan o drafodaethau am gau meddygfa gangen ar y ffin

rhwyng Sir Gaerfyrddin a Chastell Nedd. Cytunwyd nad oedd eiddo'r feddygfa gangen yn adeilad delfrydol ar gyfer gweld cleifion. Ond roeddem eisiau sicrhau na fyddai unrhyw gau posibl yn effeithio'n niweidiol ar y bobl oedd yn defnyddio'r safle neu'r meddygfeydd cangen cysylltiedig yn rheolaidd. Rydym yn parhau'n rhan o'r drafodaeth a does dim casgliad wedi'i gyrraedd eto.

Yn ystod y flwyddyn dywedodd pobl wrthym eu bod yn cael anawsterau gyda chael glanhau eu clustiau yn eu meddygfa. Yn aml roedd angen iddyn nhw gael gwneud hyn cyn cael gosod cynorthwyon clyw. Dydy pob meddygfa bellach ddim yn glanhau clustiau yn arferol. Fe wnaethom ddweud wrth y Bwrdd Iechyd a dweud na ellid stopio'r gwasanaeth yma heb fod dewis amgen ar gael. Dydy hyn ddim yn syml – mae tystiolaeth bellach i ddangos y gall fod dulliau gwell o reoli cwyr

clustiau. Unwaith eto mae hyn yn rhywbeth rydym yn ei fonitro.

Fe wnaethom hefyd ofyn cwestiynau pan oedd eiddo deintyddol yn cau yn ardaloedd Sir Gaerfyrddin/Ceredigion neu yn penderfynu peidio gweld rhagor o gleifion GIG. Mae'n bwysig bod pobl yn gweld y deintydd yn rheolaidd a dydy hi ddim bob amser yn hawdd darganfod deintydd newydd. Gall cludiant fod yn anodd a dydy pawb ddim eisiau gofal deintyddol preifat, neu dydyn nhw ddim yn gallu ei fforddio. Fe wnaethom ofyn sut roedd y sefyllfa yma yn cael ei rheoli. Fe wnaethom ofyn i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod hyn yn cael ei esbonio'n glir i bobl fel eu bod yn gwybod beth oedd eu dewisiadau.

Rydyn ni hefyd yn gallu cymryd rhan mewn cynllunio yn y camau cynnar iawn. Yn ardal Cross Hands yn Sir Gaerfyrddin mae

cynlluniau i adeiladu canolfan ofal integredig fel bod pobl yn derbyn gofal yn nes at adref. Mae hyn yn rhywbeth newydd y mae'r Bwrdd Iechyd yn ei gynllunio, gan weithio ochr yn ochr gyda chyrff eraill. Dydy'r adeiladu ddim wedi dechrau ar y datblygiad yma eto ond rydym yn sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn siarad gyda'r bobl leol i gael gweld pa ffurf hoffen nhw ei weld ar yr adeilad. Mewn digwyddiadau ymgysylltu yn haf 2019 fe aethom i gyfarfod pobl leol a staff y Bwrdd Iechyd i glywed beth oedd yn cael ei ddweud.

Fe wnaethom hefyd fynychu nifer o gyfarfodydd a gweithdai 'Trawma' am y newid sydd yn effeithio de Cymru gyfan. Roedd hyn ynghylch dull newydd o ofalu am bobl mewn sefyllfaoedd trawma mawr fel damweiniau car difrifol. Roedd yn golygu y byddai'r rhai gyda'r niwed

mwyaf yn mynd i Gaerdydd am ran cyntaf eu gofal a'u triniaeth. Roeddem eisiau sicrhau y byddai gan bobl ofal trawma lleol diogel mewn damweiniau llai difrifol. Roeddem hefyd eisiau sicrhau y byddai pobl oedd yn mynd i Gaerdydd yn dychwelyd adref i barhau gyda'u hadferiad yn ddiogel a chyn gynted â phosibl.

Pan oedd meddygfa gangen Glan y Fferi, Sir Gaerfyrddin yn wynebu cau, buom yn siarad gyda phobl leol i glywed am y problemau y byddai hyn yn eu creu iddyn nhw. Mynychodd CIC gyfarfodydd lleol i glywed yn uniongyrchol beth oedd yn poeni pobl. Disgrifiodd y Bwrdd Iechyd y problemau roedden nhw'n eu wynebu gydag adeilad y feddygfa. Fe wnaethom ofyn i'r Bwrdd Iechyd gymryd camau i ddelio gyda rhai o'r pryderon oedd gan bobl am y trefniadau newydd – roedd hyn yn golygu edrych ar anghenion apwyntiadau, ffôn

a theithio pobl.


Yn y gaeaf yn 2019 dywedodd y Bwrdd Iechyd wrthym ei fod wedi lleihau rhai gwelyau ar frys mewn ysbyty cymuned yn Llanymddyfri. Gofynwyd pam bod hyn yn digwydd. Rydym yn gwybod bod rhaid gwneud rhai penderfyniadau yn gyflym ac nid ein swyddogaeth ni ydy bod yn rhwystrol. Ond mae angen inni ddeall pam bod y sefyllfaoedd brys yma wedi digwydd a pha mor hir fydd hi cyn i bethau ddychwelyd i normal. Fe wnaethom gyfarfod gyda'r bobl leol mewn grwpiau bach ac mewn digwyddiad gyda dros 500 o bobl yn bresennol i sicrhau bod hyn yn cael ei drafod yn llawn a chynlluniau ar y gweill i adolygu'r sefyllfa.

Dydyn ni ddim yn cymryd rhan mewn trafodaethau cyn neu yn ystod cyfnod o newid yn unig. Rydyn ni hefyd eisiau gwybod sut mae gwasanaethau'n gweithio ar ôl i newidiadau ddigwydd. Yn

2019/20 fe wnaethom ymweld â nifer o feddygfeydd lle'r oedd cyfnodau heriol wedi bod yn y cwpl o flynyddoedd diwethaf. Roedden ni angen gwybod os oedd pethau wedi setlo a bod pethau wedi gwella i gleifion. Y ffordd orau o wneud hyn oedd siarad yn uniongyrchol gyda phobl. Am bob ymweliad a gynhaliwyd fe wnaethom gynhyrchu adroddiad o'n canfyddiadau a gwneud argymhellion lle'r oedd angen.

Weithiau rydym yn cymryd rhan mewn ymgynghoriadau cenedlaethol, rhanbarthol neu leol. Mae ymgynghoriadau'n digwydd pan mae byrddau iechyd, Llywodraeth Cymru neu gyrff tebyg eisiau derbyn amrediad eang o farn cyn gwneud penderfyniadau. Mae gan nifer o bobl rywbeth maen nhw eisiau ei ddweud am faterion allweddol ond dydyn nhw ddim yn ymateb i ymgynghoriadau fel unigolion. Rydym yn ceisio rhannu ymgynghoriadau gyda

phobl ac yn ymateb, yn seiliedig ar yr hyn sydd wedi'i ddweud wrthym. Mae hyn yn sicrhau bod barn pobl yn Hywel Dda yn cael ei ystyried.



Eiriolaeth cwynion ac ymholiadau

Yn ystod 2019-2020, cynorthwyon ni **476** o bobl i ddatrys pryderon, trwy gynnig cyngor cychwynnol, cyfeirio neu gynorthwyo pobl i ddatrys problemau'n anffurfiol.

Cynigon ni gymorth a chyngor hefyd trwy Weithdrefn Pryderon y GIG, a elwir yn Gweithio i Wella (PTR). Fe wnaethom agor a chario **136** o achosion drosodd gan gynnig y cymorth hwn.

Darparodd CIC Hywel Dda gyngor a chymorth eiriolaeth cwynion annibynnol i unrhyw un sy'n byw yn ei ardal, sydd am help i godi pryder am wasanaethau'r GIG, lle bynnag y cawsant eu darparu. Does dim gwahaniaeth os ydy'r gofal maen nhw'n ei dderbyn ymhellach i ffwrdd ohrwydd rydym yn gwybod bod rhaid i bobl deithio weithiau ar gyfer gofal arbenigol

Mae pob pryder yn wahanol, ac roedd pobl eisiau ac angen gwahanol lefelau o gymorth i ddwyn eu pryder yn ei flaen.

Gwnaethom helpu drwy esbonio'r broses pryderon, a helpu pobl i feddwl am yr hyn roeddent yn dymuno ac yn disgwyl i ddigwydd, o ganlyniad iddynt godi eu pryder. Rhoesom gymorth ymarferol i'r rhai a oedd ei eisiau, gan gynnwys helpu pobl i ysgrifennu llythyrau, mynd gyda nhw i gyfarfodydd, helpu pobl i ddeall yr wybodaeth a'r ateb a roddwyd gan sefydliadau'r GIG.

Mae eiriolaeth yn rhan

annatod o swyddogaethau craidd y CIC. Darparodd ein gwaith achos wybodaeth bwysig am wasanaethau a materion y GIG, a defnyddion ni hyn i oleuo ein gweithgareddau eraill.

O ganlyniad i bryderon a godir gan gleientiaid, gwneir newidiadau yn aml sydd â budd ehangach. Rydym yn dweud wrthyn nhw am amserlenni y gallai fod angen iddyn nhw eu hystyried oherwydd dydy gwneud cwyn ddim yn broses gyflym.

Mewn sawl achos, rydym yn helpu pobl i ysgrifennu eu llythyr cwyn cychwynnol. Rydym yn ei ddrafftio iddyn nhw ac yn ei wirio gyda nhw. Rydym yn mynd drwy'r llythyrau ymateb y mae pobl yn eu derbyn gan gyrff iechyd i weld os ydy eu pryderon yn cael eu trafod. Rydym yn helpu i drefnu cyfarfodydd ac yn mynychu cyfarfodydd lle bo angen.

Ar ddiwedd y broses gwyno, rydym yn gallu cynorthwyo i wneud cyfeiriadau at yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Yn ystod

y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi cyfeirio 34 achos at swyddfa'r Ombwdsmon ar gyfer adolygiad pellach.

Yn ystod y cyfnod amser 1 Ebrill 2019 i 31 Mawrth 2020 daeth 124 o achosion i gasgliad gan y tîm Eiriolaeth. Hyd yn oed pan mae cwyn yn gorffen, dydy hynny ddim yn golygu bod y materion yn y gwyn yn cael eu hanghofio. Gall fod cynlluniau gweithredu i'r CIC eu dilyn i sicrhau bod pethau wedi newid er gwell. Gall gwybodaeth cwynion ein helpu hefyd wrth gynllunio ein hymweliadau i eiddo GIG, er mwyn inni allu mynd yn ôl i ardaloedd o bryder i siarad gyda phobl i weld sut oedd eu gofal.

Mae ein gwaith Eiriolaeth yn helpu i roi darlun inni o'r hyn sydd yn digwydd yng ngofal iechyd pobl. Gall ein helpu i weithio allan pa rannau o'n system gofal iechyd sydd yn achosi pryderon i bobl sydd yn defnyddio'r gwasanaethau yma. Mae yn ein galluogi

hefyd i ddeall lle mae angen i bethau newid. Tra bod pobl weithiau yn poeni am gwyno, mae'r rhan fwyaf o bobl sydd yn defnyddio'r gwasanaeth eiriolaeth yn dweud wrthym 'Dydyn ni ddim eisiau i'r un peth ddigwydd i unrhyw un arall'. Rydym hefyd eisiau ceisio sicrhau nad ydy'r un pethau yn digwydd eto. Dyma rai enghreifftiau o newidiadau sydd wedi digwydd o gwynion yr ydym wedi bod yn rhan ohonyn nhw yn y flwyddyn ddiwethaf:

Cwyn am Feddyg Teulu

Mae pobl weithiau yn cael trafferth pan mae ganddyn nhw bryderon am eu meddyg teulu gan mai dyma'r lle cyntaf fel rheol mae pobl yn mynd pan mae ganddyn nhw broblem iechyd. Mewn un achos fe wnaethom helpu gyda chwyn ond wnaeth cyfarfod lleol i drafod materion ddim datrys pethau'n llawn. Drwy ein gweithrediadau daeth y Bwrdd Iechyd yn rhan o'r broses a nodi beth y gallai wneud. Roedd y cleient yn hapus iawn gyda'r canlyniad

ac yn teimlo bod rhywun wedi gwando arni ac yn helpu i wneud gwahaniaeth i gleifion yn y dyfodol.

Systemau radioleg

Mewn cwyn arall, cwynodd person ifanc oedd wedi cael diagnosis o fath o ganser am yr amser a gymrodd i wneud diagnosis. Trefnwyd cyfarfod gyda'r Bwrdd Iechyd, darganfuwyd gwendidau yn y system ac mae hyn wedi ei alluogi i wneud ei hawliad. Yn bwysicach, nododd y gwyn nad oedd gan y Bwrdd Iechyd system gadarn i reoli rhai o'u prosesau radioleg. Roedd hyn wedi creu oedi. Mae gan y Bwrdd Iechyd system 'rhybudd coch' nawr sydd yn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n brydlon.



Cwyn mamolaeth

Roedd un fam yn poeni nad oedd wedi cael ei monitro ddigon yn ystod ei beichiogrwydd. Roedd ganddi gymhlethdodau, roedd ei babi wedi ei eni'n gynnar a doedd y babi ddim yn dda. Darganfu'r ymchwiliad cychwynnol i'r gwyn bod y gofal wedi bod yn briodol ond bod pethau y gellid eu gwella i'r dyfodol.

Sylweddolodd y Bwrdd Iechyd nad oedd cyfathrebu wedi bod cystal ag y dylai fod ac y gellid fod wedi osgoi trallod. Darganfuwyd bod angen rhoi diweddariadau rheoli haint i feddygon a nyrsys. Nodwyd hefyd bod staff yn derbyn cyngor a chefnogaeth gan ysbytai eraill, roedd angen gosod terfynau amser i sicrhau nad oedd pobl yn aros yn rhy hir.

Gofal ysbyty ar ôl cwmp

Mae pobl hŷn weithiau yn mynd i'r ysbyty yn annisgwyl ar ôl cwmpo adref. Roedd teulu un claf yn teimlo nad oedd y gofal a gafodd yn yr ysbyty yn ddigon da. Fe wnaethom eu helpu i wneud cwyn a darganfu'r ymchwiliad bod diffygion. Nododd y Bwrdd Iechyd bethau y gallai ei wneud i sicrhau nad oedd eraill yn cael yr un profiad negyddol yn y dyfodol. Lluniodd y Bwrdd Iechyd gynllun gweithredu i sicrhau bod y newidiadau yma yn digwydd o fewn cyfnod o amser penodol. Mae cynlluniau gweithredu yn rhoi dull i'r CIC fonitro pa newidiadau sydd wedi digwydd.

Gofal Damweiniau a Brys

Mewn un cwyn doedd y cleient ddim yn teimlo yn hyderus bod yr ymchwiliad i'r gwyn yn ddigon cryf. Cynorthwyodd ein heiriolwyr i gyfeirio'r mater i'r Ombwdsmon. Nodwyd methiannau difrifol a chynhaliwyd y gwyn yn gyffredinol. Dywedodd yr Ombwdsmon bod y gwyn wedi cymryd gormod o amser i'w ymchwilio ac nad oedd y Bwrdd Iechyd wedi dilyn y

broses gywir. Roedd yr Ombwdsmon hefyd yn teimlo nad oedd y Bwrdd Iechyd wedi dysgu rhai gwersi pwysig o'r gwyn. Yn yr achos yma argymhellodd yr Ombwdsmon bod yr achwynydd yn derbyn taliad a gofynnodd i dystiolaeth gael ei ddarparu i'w swyddfa i ddangos bod ei argymhellion wedi cael eu dilyn. Gofynwyd i'r Bwrdd Iechyd hefyd gysylltu gyda chwmni allanol oedd wedi bod ynghlwm â'r mater i sicrhau eu bod yn ymwybodol o rai beirniadaethau a wnaethpwyd gan gynghorydd arbenigol.

Yn ystod y flwyddyn 2019-2020, esgorodd rhai o'r cwynion yr oeddem ynghlwm â nhw mewn argymhellion eraill gan yr Ombwdsmon i gyrff iechyd. Dyma nhw:


- Hyfforddiant i nyrsys ar ward benodol, ar y defnydd o fonitro cardiaidd
- Hyfforddiant ychwanegol i staff ar atal cwmpiadau
- Trafodaethau ffurfiol rhwng staff a'u goruchwylwyr er mwyn iddyn nhw ddysgu o

- broblemau yn y gorffennol
- Gweithio gyda staff i wella cadw cofnodion meddygol
 - Edrych ar ffyrdd o weithio'n well gyda chleifion lle nad Saesneg ydy eu hiaith gyntaf
 - Darparu tystiolaeth bod adroddiadau'r Ombwdson wedi cael eu trafod yn ffurfiol mewn cyfarfodydd staff ac adolygiadau achos
 - Dangos bod archwiliadau yn cael eu gwneud fel gwiriadau ar ansawdd
 - Sicrhau bod staff yn gwybod sut i lenwi siartiau bwyd yn gywir
 - Hyfforddiant i staff ar raglen "Meddwl am Glwcos" a gwneud hyn yn hyfforddiant gorfodol
 - Sicrhau bod staff wardiau yn derbyn hyfforddiant penodol ar ragnodi a rhoi insiwlin
 - Adrodd ar ddigwyddiad gyda meddyginiaeth chwistrelliad yn cael ei adrodd i'r Asiantaeth Rheoleiddiol Meddyginiaethau a Gofal Iechyd drwy'r Cynllun Cerdyn Melyn.

- Trefnu ymwybyddiaeth o iechyd meddwl a hyfforddiant addasiadau rhesymol i staff
- Adolygu'r ffordd y mae achosion lle'r amheuir 'Deep Vein Thrombosis' (DVTs) yn cael eu rheoli

Mae adegau lle nad ydy'r Ombwdsmon yn cynnal cwynion ac er y gall hyn fod yn siom i'r person dan sylw, mae pobl yn dweud wrthym eu bod yn gallu tynnu llinell o dan bethau pan maen nhw'n gwybod bod corff annibynnol wedi ymchwilio i'w cwyn.

Mae pobl sydd yn defnyddio'r gwasanaeth eiriolaeth fel rheol yn darparu rhai sylwadau cadarnhaol iawn:



"Diolch yn fawr am eich help, fe fyddem ar goll hebdo chi ..."

Mae pobl yn cydnabod pan maen nhw'n gwneud cwyn bod cael rhywun annibynnol i'w helpu yn gallu gwneud gwahaniaeth.

"Hoffwn ddiolch i chi am eich cefnogaeth yn ystod y weithdrefn gwynion, roedd yn gysur mawr yn ystod yr amser hwnnw"

"Fel arfer, rydych wedi bod yn llawn cymorth, ...ac rydym yn ddiolchgar iawn i'ch cael fel eiriolydd"

Ymweld

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae ein haelodau wedi ymweld ag amrediad o wardiau ysbyty aciwt a chymunedol, adrannau brys, canolfannau iechyd a meddygfeydd. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Canolfan Iechyd Crymych
- Ward Dyfi
- Ward Derwen
- Meddygfa Cei Newydd
- Meddygfa Cwmllynfell
- Awdioleg ar draws pob ysbyty
- Canolfan Iechyd Abergwaun
- Canolfan Iechyd Neyland
- Meddygfa Emlyn
- Ysbyty Llanymddyfri
- Meddygfa Ashgrove
- Meddygfa Llynyfran
- Adran Damweiniau a Brys Llwynhelyg

Fe wnaethom gynhyrchu adroddiad ar ôl pob ymweliad a gyhoeddwyd wedyn ar ein gwefan fel bod pobl yn gallu gweld ein canfyddiadau a'n hargymhellion.

Rydym yn gwybod bod gwasanaethau mamolaeth wedi bod yn broblem mewn rhannau eraill o'r DU felly fe wnaethom ymweld ag unedau mamolaeth yn 3 o'n hysbytai. Drwy wneud yr ymweliadau hyn roeddem yn gallu clywed ein hunain os oedd y gofal a dderbyniodd mamau yn Glangwili, Bronglais a Lwynhelyg wedi rhoi profiad genedigaeth cadarnhaol iddyn nhw.

Rydym yn cydnabod pan rydym yn ymweld ar ddiwrnod neilltuol mai darlun yn unig a gawn o'r hyn sydd yn digwydd ar yr adeg neilltuol hwnnw. Felly roeddem yn sicrhau ein bod hefyd yn cael barn pobl oedd wedi defnyddio'r cyfleusterau hyn ond nad oedd yno ar ddiwrnod ein hymweliad. Mae gwneud rhywfaint o waith allgyrraedd mewn grwpiau rhieni a babanod wedi ein helpu i glywed oddi wrth llawer rhagor o bobl.

Roedd defnyddio arolwg y gall pobl ei bostio'n ôl inni yn

golygu y gallai rhieni newydd prysur gael mynegi barn hyd yn oed os oedd hynny wythnosau neu fisoedd ar ôl yr enedigaeth. Weithiau roedd pobl angen mwy o amser cyn teimlo eu bod yn gallu rhoi eu sylwadau inni ac roeddem eisiau rhoi'r cyfle yma iddyn nhw ddweud eu straeon wrthym mewn ffordd oedd yn gweddu iddyn nhw.

Dywedodd y rhan fwyaf o bobl bod yr enedigaeth yn iawn, y gofal yn union wedi hynny oedd yn broblem, yn enwedig i'r mamau hynny oedd angen help gyda bwydo o'r fron. Fe wnaethom ddweud wrth y Bwrdd Iechd bod mamau newydd weithiau yn teimo'n unig iawn a heb gefnogaeth dda os oedd rhaid iddyn nhw aros yn yr ysbyty ar ôl cael babi. Fe wnaethom ofyn i'r Bwrdd Iechyd ddelio gyda hyn.

Yn ystod rhai o'n hymweliadau rydym yn darganfod nad ydy eiddo yn ddelfrydol. Dydyn ni ddim yn arolygwyr o unrhyw fath ond

rydym yn cydnabod nad ydy'r bobl sydd yn defnyddio'r cyfleusterau hyn efallai ddim eisiau creu ffwdan. Lle rydym wedi darganfod cyfleusterau newid annigonol neu goridorau llawn rydym yn rhannu'r pryderon yma gyda staff yr ysbyty ar ddiwrnod ein hymweliad fel bod rhywbeth yn gallu newid er gwell. Yna rydym yn dychwelyd i sicrhau bod y newidiadau yn cael eu cynnal.

Dydyn ni ddim yn mynd i brofi ysbytai prysur yn unig ar ein hymweliadau, rydym hefyd yn ymweld â lleoedd llai yn ein hardaloedd gwledig. Mae pobl yn gwerthfawrogi ysbytai cymunedol oherwydd mae'n golygu bod pobl yn aml yn gallu derbyn gofal yn lleol gan osgoi teithiau hir i ymweld ag anwyliaid mewn ysbytai mwy a phrysurach. Yn aml mae pobl yn aros mewn ysbytai cymunedol am gyfnodau hirach ac mae hyn yn golygu bod ganddyn nhw lawer o bethau i'w ddweud wrthym yn aml.

Wrth ymweld ag Ysbyty Llanymddyfri yn haf 2019, fe wnaethom ddysgu bod arhosiad pobl ar y cyfan yn yr ysbyty yn dda. Roedd rhai pobl yn teimlo eu bod yn aros yn rhy hir i gael eu rhyddhau. Roedd rhai pobl yn dychwelyd i'w cartref eu hunain gyda theulu, eraill yn mynd adref eu hunain lle byddai angen cymorth arnyn nhw. Fe wnaethom ofyn i'r Bwrdd Iechyd i ddarganfod ffyrdd o helpu pobl i fynd adref ynghynt. I'r rhai oedd yn yr ysbyty fe wnaethom ofyn a fyddai modd sefydlu siop deithiol fel bod pobl yn gallu prynu rhai eitemau. Fe wnaethom hefyd awgrymu y gallai cyfleusterau Wi-fi neu Skype helpu i gadw cleifion mewn cysylltiad gyda theuluoedd ymhellach i ffwrdd yn ystod eu harhosiad yn yr ysbyty.

Wrth ymweld ag Adran Damnweiniau a Brys yn Llwynhelyg yn yr haf, roedd yn brysur iawn yno. Fe wnaethom nodi nifer o bethau a gofyn i'r Bwrdd Iechyd

ddelio gyda nhw, fel cael ystafel dawel lle y gallai pobl mewn trallod aros. Fe wnaethom ofyn i staff y Bwrdd Iechyd edrych ar faint o amser roedd pobl yn aros a darganfod gwell ffyrdd o roi gwybod i bobl pa mor hir y gallent fod yn aros. Fe wnaethom ofyn sut roedd pobl yn cael help i gael bwyd, diod neu feddyginiaeth os oedden nhw yno am amser hir.

Cyflawniadau

Mae'r paragraffau blaenorol yn rhoi rhywfaint o fanylion am y pethau sydd wedi newid oherwydd cyfranogiad CIC mewn cyfarfodydd, ymweliadau a chwynion. Mae rhagor o enghreifftiau y gallwn eu rhoi:

- Fe wnaethom ofyn i'r Bwrdd Iechyd adolygu rhywfaint o'r gwaith papur y mae'n ei ddarparu i bobl pan mae angen iddyn nhw fynd i'r ysbyty, mae rhai ffurflenni yn rhy gymhleth ac yn creu rhagor o bryderon i bobl.
- Fe wnaethom nodi bod cleifion diabetes angen

systemau prydau bwyd mwy hyblyg yn yr ysbyty.

Roedden nhw angen gwybod pryd roedd prydau bwyd yn dod a lle i gael byrbrydau i reoli eu lefelau siwgr gwaed. Fe wnaethom ofyn i'r Bwrdd Iechyd wneud hyn yn haws.

- Gofynnwyd i rai meddygfeydd edrych ar y ffordd roedd eu 'Sgriniau Cofnodi' yn gweithio mewn derbynfeydd i'w wneud yn haws i gleifion eu defnyddio. Fe wnaethom hefyd ofyn iddyn nhw edrych ar sut y gallai cleifion gael sgysiau cyfrinchol pan oedd angen hynny.

Sut yr ydym wedi gwneud gwahaniaeth: Gweithio'n genedlaethol

Gan weithio gyda'n gilydd, mae'r Bwrdd a'r CICau'n amlygu materion sydd, neu a fydd, yn effeithio ar brofiadau pobl ledled Cymru. Rydym yn tynnu ar ein gwybodaeth leol, i lunio'r agenda genedlaethol ac i herio llunwyr polisi a'r rheiny sy'n darparu ein gwasanaethau i wneud yn well.

Rydym yn gwneud mwy na chynnig ymatebion ar faterion a godwyd gan eraill; rydym yn nodi'r achos dros newid ar y materion hynny sydd bwysicaf i'r claf a'r cyhoedd; gan ddisgrifio lle mae angen gwelliannau a dwyn y GIG yng Nghymru i gyfrif ar ei berfformiad.

Themâu cenedlaethol

Gan weithio trwy'r Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned yng Nghymru, yn 2019-2020, bu'r 7 CIC yng Nghymru'n gweithio ar 4 o brosiectau cenedlaethol. Roeddem am glywed yr hyn oedd gan bobl i'w ddweud ledled Cymru am y GIG mewn rhai meysydd allweddol:

- Gwasanaeth tu allan o oriau meddyg teulu
- Gwasanaethau gofal llygaid yng Nghymru

- Orthodonteg
- Amser mynd adref?

Yn ogystal, cadwodd y CICau lygad barcud ar y cynnydd a oedd yn cael ei wneud mewn ymateb i'r prosiectau a gyflawnwyd yn y flwyddyn flaenorol.



Gweithio gydag eraill

Yn ystod y flwyddyn gwnaethom ymgymryd â rhai o'n gweithgareddau gydag eraill. Fe wnaethom weithio ochr yn ochr gyda CICau cyfagos ar brosiectau amrywiol. Er enghraifft, pan oedd newidiadau arfaethedig i wasanaethau gofal sylfaenol ar y ffiniau rhwng ardal CIC Bae Abertawe ac ardal CIC Hywel Dda, gweithiodd y ddau CIC gyda'i gilydd. Gall pobl o wahanol siroedd ddefnyddio'r un gwasanaethau ac mae angen dull o wethredu ar y cyd i sicrhau bod pawb yn cael eu clywed.

Fe wnaethom gyfarfod ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn rheolaidd i rannu gwybodaeth ac i lywio ein rhaglen waith. Roedd hyn yn cynnwys darparu gwybodaeth am ein hymweliadau i unedau mamolaeth a gynhaliwyd ym mis Mai 2019. Fe wnaethom ddweud wrthyn nhw am y ffyrdd roeddem wedi gofyn am wybodaeth gan famau newydd a rhai o'r pethau roedden nhw wedi eu nodi fel pryderon.

Fe wnaethom gyfeirio pryderon clinigol at Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru pan roeddem yn teimlo bod eu cyfranogiad yn bwysig. Mae ganddyn nhw rôl wahanol inni ac maen nhw'n

gallu arolygu gofal iechyd, trinaeth ac eiddo mewn dull gwahanol. Fe wnaethom siarad gyda nhw pan oedd gennym bryderon am wasanaethau gofal iechyd meddwl a gwasanaethau menywod a phlant.

Cawsom drafodaethau rheolaidd gyda staff swyddfa'r Ombwdsmon i drafod sut roedd cwynion yn cael eu trafod gan gyrff GIG. Fe wnaethom gynnig awgrymiadau ar sut y gellid gwneud gwelliannau ac edrych ar feysydd yr oeddem yn teimlo y gallai weithio'n well. Fe wnaethom nodi ffyrdd y gallai CIC wneud pethau'n wahanol i wneud ein perthynas waith gyda nhw

yn fwy effeithol ac effeithlon.

Fe wnaethom weithio gyda chydweithwyr y trydydd sector a grwpiau cymunedol yn cynnwys:-

- Gweithredu Gorllewin Cymru dros Iechyd Meddwl
- Ysgolion ar draws y tair sir fel rhan o'n gwaith orthodonteg
- Grwpiau gofalwyr
- Cyrff tai
- Grwpiau Cymunedol Amrywiol
- Amrywiol grwpiau cymunedol
- Grwpiau afiechydon/cyflyrau penodol fel grwpiau cefnogi awto imiwn a grwpiau niwrolegol

Mynd o amgylch ein siroedd

Mae'r CIC yn gweithio ar draws y 3 sir yn Hywel Dda ac mae gennym gyfarfodydd, pwyllgorau, digwyddiadau a swyddfeydd yn y dair ardal. Mae'n ddefnyddiol weithiau i'r

dair sir gydweithio a rhannu gwybodaeth ond rydym hefyd yn cydnabod bod pob sir yn wahanol ac mae adegau lle mae pob sir yn canolbwyntio ar wahanol agweddau. Dros y flwyddyn ddiwethaf mae ein tair sir wedi parhau i wneud hyn:

Sir Gaerfyrddin

Bu aelodau yn brysur yn eu cymunedau ac yn canolbwyntio ar gynllun ar gyfer 'Sir Gaerfyrddin Iachach'. Mae hyn yn cynnwys pethau fel atal iechyd gwael, gwella gofal a sicrhau mai dim ond pan mae gwir angen iddyn nhw wneud hynny y mae pobl yn mynd i'r ysbyty.

Croesawyd y cynlluniau ar gyfer canolfan gofal integredig yn Cross Hands gan aelodau Sir Gaerfyrddin. Fe wnaethon nhw gyfarfod gyda phobl leol mewn digwyddiadau ymgysylltu a darganfod fod pobl eisiau gofal yn nes at adref a bod yn

well ganddyn nhw osgoi ymweliadau ysbyty os oedd modd cael gofal mewn lleoliad arall.

Gyda 2 prif ysbyty a 2 ysbyty cymuned yn Sir Gaerfyrddin roedd yr aelodau yn gofyn yn rheolaidd i'r Bwrdd Iechyd am gael pobl adref o ysbytai. Mae cael digon o gefnogaeth i bobl aros adref yn ddiogel ac yn annibynnol yn her ac roedd aelodau eisiau sicrhau bod gwaith yn cael ei wneud i ddelio gyda hyn.

Clywodd aelodau Sir Gaerfyrddin am ddulliau newydd o weithio mewn gofal iechyd meddwl, gyda chanolfan 'galw heibio' yn Llanelli yn darparu cefnogaeth i bobl mewn argyfwng. Gan fod ar agor y tu hwnt i oriau arferol yn ystod y dydd, croesawyd y dull hyblyg yma o weithredu fel ffordd o roi help i bobl pan mae nhw ei angen.

Ceredigion

